**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA.JJ.0260.21

Elin Jones AS
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Ionawr 2021

Annwyl Llywydd,

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Rheoliadau Llywodraeth Leol *(Coronafeirws) (Gohiro Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021* yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Cyflwynwyd Deddf y Coronafeirws 2020 yn Senedd San Steffan ar 19 Mawrth 2020 ac roedd yn cynnwys sawl darpariaeth amrywiol ynghylch etholiadau. Gohiriodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 5 Mai 2020 unrhyw is-etholiadau a oedd bod cael eu cynnal yn y dyfodol agos, gan bennu dyddiad newydd ar gyfer cynnal yr is-etholiadau hyn erbyn 16 Ebrill 2021 ac nid cyn 1 Chwefror 2021. Fodd bynnag, yn ddiweddar, fel y gwyddoch, mae pandemig y Coronafeirws wedi gweld ymchwydd arall a chyfyngiadau lefel 4 yn cael eu rhoi ar waith. Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd, ystyrir bod angen gohirio'r is-etholiadau hyn ymhellach o'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 tan 6 Mai 2021.

. Gan fod yr etholiadau a ohiriwyd i fod i gael eu cynnal yn wreiddiol o 1 Chwefror, mae angen cyflwyno'r set hon o reoliadau ar frys ac felly eu cyflwyno i rym cyn gynted â phosibl. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yn darparu bod y cyfnod gohirio yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021. Mae peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 29 Ionawr 2021. Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd